# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:**Ystafell Bwyllgora 4, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024

Amser: 10.15 - 12.23

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13700) yn:

http://senedd.tv/cy/13700

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg<br>Emyr Harries, Llywodraeth Cymru<br>Lloyd Hopkin, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Simon Tew, Llywodraeth Cymru<br>Ben Crudge, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Rhiannon Williams (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd dim ymddiheuriadau, dirprwyon na datganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei waith craffu blynyddol ar rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - 26 Ionawr 2024

### 2.2 PTN 2 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Oblygiadau Ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 26 Ionawr 2024

2.2.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu’n ôl at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn gofyn am ragor o wybodaeth mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor ar gostau sy’n ymwneud â Chomisiwn y Senedd sy’n deillio o’r Bil.

**2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 - 17 Ionawr 2024**

**2.4 PTN 4 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Ymateb i waith craffu blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru – 1 Chwefror 2024**

**2.5 PTN 5 – Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru – 1 Chwefror 2024**

## 3 Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg; Emyr Harries, Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg; a Lloyd Hopkin, Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm.

3.2 Cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ddarparu nodyn ar drefniadau arolygu ar gyfer canolfannau gweithgareddau awyr agored preswyl a chostau cysylltiedig.

## 4 Goblygiadau ariannol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Ben Crudge, Pennaeth Polisi Trethi Lleol; a Simon Tew, Rheolwr y Bil.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.